# Cenn@d

AWST 23 2023 YN CYNNWYS *Y GOLEUAD* A *SEREN CYMRU* RHIF 130


## ‘Mae gen i freuddwyd …’

Drigain mlynedd yn ôl, ar 28 Awst 1963, cyflwynodd Martin Luther King ei araith enwog sy’n cynnwys y geiriau a anfarwolwyd ganddo: ‘I have a dream’.

Y diwrnod hwnnw, roedd tua 250,000 o gefnogwyr hawliau sifil yn y dorf yn Washington, wrth iddo ymbil am gydraddoldeb hiliol a diwedd ar wahaniaethu yn yr Unol Daleithiau. Roedden nhw yno i goffáu canmlwyddiant datganiad yr Arlywydd Abraham Lincoln dros ryddhau Americaniaid Affricanaidd. Ond gan nad oedd dim wedi newid yn y cyfamser mewn gwirionedd a’r anghyfiawnder a’r gorthrwm yn parhau, trefnwyd gorymdaith arbennig dros Swyddi a Rhyddid, gan annog pawb i ailymrwymo i addewid gwreiddiol y Datganiad dros Ryddid.



Llun: Wikimedia Commons

Yn ei araith ar risiau marmor Cofeb Lincoln cyfeiriodd Martin Luther King at Gyfansoddiad yr Unol Daleithiau, gan ddweud: ‘Mae gen i freuddwyd y gwelaf y genedl hon yn codi ryw ddydd i fyw yr hyn a ddywed un o erthyglau ei chyfansoddiad: “Daliwn fod y gwirionedd hwn yn eglur, fod pob dyn yn gydradd”.’

Yn y rhannau mwyaf adnabyddus o’r araith mae’n cyfeirio’n emosiynol at ei blant yn ogystal â’i argyhoeddiadau Cristnogol dwfn:

> Mae gen i freuddwyd y bydd fy mhedwar plentyn yn medru byw, ryw ddydd, fel rhan o genedl lle bydd cymeriad yn bwysicach na lliw croen.
>
> Mae gen i freuddwyd heddiw.
>
> Mae gen i freuddwyd y bydd talaith Alabama, ryw ddydd … yn fan lle bydd bechgyn a merched duon yn abl i gydio yn llaw bechgyn a merched gwynion a chyd-gerdded ar yr heolydd.
>
> Mae gen i freuddwyd heddiw.
>
> Mae gen i freuddwyd: ‘pob pant a gyfodir a phob mynydd a bryn a ostyngir, y gŵyr a wneir yn uniawn a’r anwastad yn wastadedd a gogoniant yr Arglwydd a ddatguddir a phob cnawd ynghyd a’i gwêl.’
>
> Dyna ein gobaith. Dyna’r ffydd sydd gen i wrth droi yn ôl i’r De. Gyda’r ffydd hon gallwn gloddio o fynydd ein siom garreg o obaith. Gyda’r ffydd hon medrwn droi discordiau aflafar ein cenedl yn symffoni hyfryd o frawdgarwch.
>
> Gyda’r ffydd hon gallwn gyd-weithio, cyd-weddïo, cyd-ymdrechu, gan wybod y byddwn yn rhydd ryw ddydd.
>
> (Dyfynnwyd o gyfrol T. J. Davies, *Martin Luther King* Gwasg John Penry, 1969, tt. 138–9)

Gellir gwrando ar yr araith yn llawn ar wefan Prifysgol Stanford: https://freedomsring.stanford.edu/?view=Speech; mae’r rhan benodol sy’n cyfeirio at ei freuddwyd yn dechrau ar ôl tua 11.30 munud.

Fe adleisiodd Gwyn Thomas neges King mewn modd ysgytwol yn ei gerdd deledu ‘Cadwynau yn y Meddwl’:

> Mae gen i freuddwyd am y wlad
> Lle bydd pawb yn bobol,
> Lle na fydd gormes na nacâd,
> Na chas byth mwy dragwyddol.
>
> Mae gen i freuddwyd am y wlad
> Lle bydd diwedd angau,
> Lle na fydd cynnen, trais, na brad,
> Lle na fydd ofn cadwynau.
>
> Mae gen i freuddwyd am y wlad
> Lle bydd cariad yno,
> Lle na fydd dicter mwy, na llid,
> Lle na fydd neb yn wylo.

Ond tybed ydyn ni wedi symud ymlaen o gwbl mewn 60 mlynedd – ac onid ydi geiriau clo’r gerdd yr un mor berthnasol heddiw?

> ‘Wragedd America, wragedd y byd,
> Nac wylwch o’m plegid i,
> Eithr wylwch o’ch plegid eich hunain
> Ac oblegid eich plant,
> Oblegid eich plant,
> Oblegid eich plant.’

*Marian Beech Hughes*


O’r Swyddfa
Cynhadledd Cynghrair Bedyddwyr y Byd, Stavanger, Norwy, 3–5 Gorffennaf 2023
Tudalen 2

CREDO
Tudalen 5

‘Pererindod’ i eglwys arbennig
Tudalen 7

# O’r Swyddfa

## Cynhadledd Cynghrair Bedyddwyr y Byd, Stavanger, Norwy, 3–5 Gorffennaf 2023

Hyfrydwch ar ddechrau Gorffennaf oedd cynrychioli’r Undeb yng nghyfarfodydd blynyddol Cynghrair Bedyddwyr y Byd a gynhaliwyd eleni yn Stavanger, Norwy.

Roedd dros 500 o gynadleddwyr yn bresennol, yn cynrychioli 82 o wledydd, ac roedd hi’n wirioneddol braf cyfarfod â chyd-Fedyddwyr o wahanol wledydd megis Jamaica, yr Iseldiroedd, yr Unol Daleithiau, Lebanon ac Ynysoeddd Turks a Caicos, ac enwi dim ond rhai.

Sefydlwyd y Gynghrair yn 1905 ac erbyn heddiw, gyda 253 o Undebau yn perthyn iddi, mae’n gwasanaethu dros 51 miliwn o Fedyddwyr ar draws y byd. Yn Washington DC, America, y mae’r pencadlys a’i swyddogaeth yw darparu rhwydwaith ar gyfer y teulu Bedyddiedig, cynnig arweiniad mewn cenhadaeth a gweinidogaeth, ynghyd ag amddiffyn rhyddid crefyddol a gweithredu dros iawnderau dynol a chyfiawnder. Mae’r Corff hefyd yn weithgar wrth geisio ymateb yn ddiwinyddol i rai o broblemau mwyaf ein cyfnod.

Yn ystod y gynhadledd eleni croesawyd dau aelod newydd, sef Niger a Thiroedd Palesteina. Mae gan Undeb Bedyddwyr Efengylaidd Niger 34 o eglwysi a 4,014 o aelodau; ac mae gan Gyngor Eglwysi Efengylaidd Tiroedd Palesteina 13 o eglwysi a 500 o aelodau. O gofio bod Niger a Thiroedd Palesteina wedi hawlio lle amlwg yn y newyddion yn ddiweddar, mawr obeithir y bydd y cyswllt â’r Gynghrair yn gyfrwng cefnogaeth iddynt ynghanol helbulon digon heriol.

Mae’n siwr mai uchafbwynt y gynhadledd i’r mwyafrif o’r cynadleddwyr oedd gwrando ar y diwinydd Miroslav Volf yn sgwrsio gydag Ysgrifennydd Cynorthwyol Ffederasiwn Bedyddwyr Ewrop, Helle Liht. Brodor o’r hen Iwgoslafia yw Volf ond mae bellach yn byw yn America ac yn Athro yn Ysgol Ddiwinyddol Yale. Roedd ei deulu yn Gristnogion o argyhoeddiad a’i dad yn weinidog gyda’r Eglwys Bentecostaidd. Ganed Volf yn Osijek, Croatia, lle’r oedd aelodau’r Eglwys Gatholig Rufeinig yn y mwyafrif. Yna, pan oedd yn bum mlwydd oed, symudodd y teulu i fyw yn Novi Sad, Serbia, lle’r oedd aelodau’r Eglwys Uniongred yn y mwyafrif. Bu’r profiad o fyw fel ‘Cristion lleiafrifol’ yn allweddol yn ei ddatblygiad fel diwinydd ac fe’i portreadwyd fel ‘adeiladydd pontydd diwinyddol’.

Er nad darlith neu gyflwyniad ffurfiol oedd gan Volf, caed sylwadau hynod heriol ganddo wrth iddo sgwrsio ac ymateb i gwestiynau o’r gynulleidfa. Gofynnodd a oedd Crist bellach yn ddieithryn moesol yn ein byd ac a fyddai blaenoriaethau ein diwylliant o bwys iddo. A oeddem wedi anghofio am y cwestiwn pwysicaf oll, sef ystyr bywyd? Tybiai fod hyn wedi cael ei roi o’r neilltu gennym wrth inni boeni fwyfwy am gynnal strwythurau ein bywyd yn hytrach na chanfod pwrpas ei fodolaeth. **Cawsom ein cyffelybu i arlunydd sydd ag obsesiwn ynglŷn â chyflwr y brwshys ond nad yw’n llwyddo i beintio a chreu yr un darlun.**

Cafwyd sgwrs heriol arall gan weinidog Bedyddiedig llawn brwdfrydedd o’r enw Dennis Pethers, sylfaenydd ‘The Rooftop’, mudiad a gafodd ei enwi ar ôl yr hanes am Pedr yn gweddïo ar ben y to ym mhennod 10 o Lyfr yr Actau. Soniodd Pethers am waith y mudiad gan ddweud bod cenhadaeth Crist yn fater o frys ac y dylai’r eglwys ddeffro i’r dasg o wneud disgyblion ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain. Nododd mai dim ond 2% o Gristnogion oedd yn rhannu eu ffydd ag eraill. Roedd y sylw hwn yn cyd-daro â sylw arall a glywais yn ddiweddar gan wraig oedd wedi paratoi a rhannu holiadur ar gyfer Cristnogion. Un o’r cwestiynau ar yr holiadur oedd hwn: “A ydych yn credu ei bod hi’n bwysig rhannu eich ffydd gydag eraill?” Syndod oedd deall mai 49% yn unig a ymatebodd



Llun: Baptist World Alliance

Miroslav Volf

yn gadarnhaol i’r cwestiwn. Gwyddom nad yw’r gwaith o genhadu heddiw yn hawdd ond ar yr un pryd dyma oedd gorchymyn Iesu i bob un ohonom! Tybed faint o frys sydd arnom heddiw i rannu’r Efengyl ac a yw’r hinsawdd seciwlar wedi llwyddo i’n llorio yn llwyr?

Yn sicr, cefais ddigon i gnoi cil arno yn dilyn y gynhadledd yn Norwy a mawr yw fy niolch i’r Undeb am y cyfle i fynd yno. Bydd, fe fydd un neu ddau o gyfrolau Volf ar fy rhestr darllen ar gyfer gwyliau’r haf!

*Judith Morris*

## Cydymdeimlo

Trist gennym oedd clywed am farwolaeth yr Athro Brynley F. Roberts. Cyfrannodd yn helaeth i fywyd y genedl fel darlithydd ac Athro yn y Gymraeg yn Aberystwyth ac Abertawe, ac fel Pennaeth y Llyfrgell Genedlaethol o 1985 hyd ei ymddeoliad. Cyfrannodd am flynyddoedd lawer i fywyd ei eglwys leol yng nghapel y Morfa a gwasanaethodd Eglwys Bresbyteraidd Cymru fel blaenor, yn ei llysoedd a’i phwyllgorau amrywiol, fel Llywydd y Gymdeithasfa yn y De, ac yna yn 2001 fel Llywydd y Gymanfa Gyffredinol, ac fel golygydd *Y Traethodydd* o 1999 hyd 2015.

Estynnwn ein cydymdeimlad diffuant i Rhiannon, ei briod, a hefyd i’w feibion, Rolant a Maredudd, a’u teuluoedd.

Darllenwyd eisoes lu o deyrngedau iddo. Caiff darllenwyr *Cenn@d* gyfle yn fuan i rannu yn y teyrngedau mewn coffâd llawnach. Llwyddodd Siôn Aled Owen i grynhoi ei gyfraniad mewn englyn, a gyda’i ganiatâd fe’i cynhwyswn yma:

**Brynley Roberts**

Ysgolor hynaws, gwylaidd – nid yma’r
    academydd oeraidd:
rhannodd led ei gred o’i graidd
a’n llên mewn traethu lluniaidd.

# Ffilm 73






Noson plastro 'Cofia'r Iesu' ym Mhwllheli; mae'r Parchg Gwyn Rhydderch yn eistedd ar y chwith



Noson y plastro ym Mhwllheli

Tybed beth yw eich atgofion o 1973? Yn ystod y flwyddyn honno, enillwyd Cadair a Choron Eisteddfod Rhuthun gan Alan Llwyd. Sgoriodd y Barbariaid y cais anhygoel hwnnw yn erbyn y Crysau Duon a dyfeisiwyd y ffôn llaw symudol gan Martin Cooper.

Ond roedd yna hefyd gyffro arall yng Nghymru yn 1973 – cyffro ysbrydol a Christnogol ymhlith yr ifanc, mewn sawl ardal a choleg. Mae *Ffilm 73* yn olrhain hanes gwaith Duw yn un o'r ardaloedd hynny, sef Llŷn ac Eifionydd.

Tri amlwg iawn oedd yng nghanol y bwrlwm oedd y diweddar Idris Charles, Geraint Tudur ac Arfon Wyn. Yn y ffilm mae Geraint ac Arfon yn cyflwyno'r hanes yn frwdfrydig a hwyliog. Ceir cyfraniadau treiddgar gan y diweddar Barchg Ddr Goronwy Prys Owen, y Parchg Harri Parri, y Parchg Ddr Densil Morgan, y Parchg John Roberts a Carys Lake. Mae'r diweddar Phil Wyman yn sôn am y 'Jesus Movement', symudiad ysbrydol o'r Amerig a ddylanwadodd yn fawr ar y byd gorllewinol.

Ysgrifennwyd y sgript fachog ac i bwrpas gan y Parchg John Pritchard a chyflwynir y ffilm yn broffesiynol gan Miriam Watling.

Un o uchafbwyntiau ymchwilio ar gyfer y ffilm oedd derbyn 'tape to tape' o Oedfa'r Ifanc yng Nghapel Salem, Pwllheli, ym mis Chwefror 1973, wedi'i recordio gan y Parchg Ddr Goronwy Prys Owen. Gellir gwrando ar yr oedfa, sy'n glir fel cloch, ar Youtube: https://youtu.be/l-cGK8T14go

Oedd, roedd 1973 yn flwyddyn dda! Daeth nifer fawr iawn o bobl ifanc ar hyd a lled Cymru yn ddisgyblion i Iesu. Oedd 'na ryw nodwedd ysbrydol arbennig yn perthyn i'r cyfnod? Credaf fod y Parchg Harri Parri, yn ei gyfrol *Achub Lyfli Pegi*, yn dweud y cyfan, "Y rhyfeddod mwya' i gyd oedd llawenydd syml a lifai drwy'r cyfan, gan olchi drosodd yma ac acw, nes synnu y rhai mwyaf sidêt ohonom. Idris, Arfon, Geraint a'r lleill ar eu gorau? Nage, meddai'r hogia, yr Arglwydd Iesu Grist ar ei orau." Dyrchafwyd Iesu nid unigolion!

Gellir gwylio *Ffilm 73* ar Youtube: https://youtu.be/eVEVPYGojao

*Gwyn Rhydderch*

## Cydymdeimlo

Gyda thristwch hefyd derbyniwyd y neges am farwolaeth y Parch. Emlyn Richards yn 92 mlwydd oed. Er mai brodor o Sarn Mellteyrn yn Llŷn ydoedd, mae'n debyg mai gyda Chemaes ym Môn y cysylltir ef gan mai yno y treuliodd ei oes ac yno ers 1962 y gwasanaethodd ei unig ofalaeth. Roedd yn ymgyrchydd gwrth-niwclear, yn bregethwr poblogaidd, yn awdur nifer o lyfrau ac yn storïwr penigamp. Estynnwn ein cydymdeimlad diffuant i'w ferch, Ruth, a'i theulu ehangach. Cynhwysir coffâd iddo ar dudalennau *Cenn@d* yn fuan.

Gyda chaniatâd Annes Glynn cynhwyswn yr englyn canlynol. Mynegir ganddi'r ymdeimlad o'r bwlch a adawyd ar ei ôl:

**Emlyn Richards**

O farw'i phrif gyfarwydd – mae ym Môn
lwyfan mud o reidrwydd,
mewn hedd mae'r arabedd rhwydd,
nyddu'i stori'n ddistawrwydd.

## Taro'r Post

### Pysgota neu bysgodyn

Mae 'na osodiad sy'n dweud rhywbeth fel hyn: 'Rhowch bysgodyn i ddyn a bydd ganddo un pryd o fwyd ond, ar y llaw arall, os dysgwch yr un unigolyn i bysgota, bydd ganddo fwyd bob dydd.'

Daeth yr ymadrodd hwn i gof wrth imi dreulio'r dydd yng Nghaerdydd yng Nghyfarfod Blynyddol Undeb Bedyddwyr Cymru. Yn ystod y prynhawn cafwyd cyflwyniad grymus i lansio apêl yr enwad i gefnogi gwaith Cymorth Cristnogol. Mae'r apêl i godi arian i helpu unigolion yng ngogledd Zimbabwe. Soniwyd fel y mae'r ymgyrch benodol hon gan Gymorth Cristnogol nid yn unig yn dysgu sgiliau newydd i unigolion ond hefyd yn helpu unigolion i fabwysiadu ffyrdd newydd o weithredu pan fydd eu hamgylchiadau'n newid. Mae'r apêl i redeg hyd ddiwedd 2024.

Yn ddiweddarach yr un prynhawn cafwyd cyflwyniad ar ran Eglwys y Tabernacl ar sut yr oeddynt yn darparu bwyd, erbyn hyn gyda chefnogaeth bwyty cyfagos, i'r digartref yng Nghaerdydd. Rwy'n siŵr fod hyn o help mawr i tua hanner cant o bobl sydd yn derbyn y cymorth hwn ddwywaith yr wythnos. Mae siop leol arall yn darparu cacennau.


Gwelir tair elfen bwysig yn y genhadaeth hon, sef cyfiawnder, cyhoeddi'r Efengyl a'r harddwch o adnabod gwaith Duw.

Nid wyf yn ceisio bod yn negyddol ond yr hyn sydd yn achos consýrn i mi yw oni fyddai'n well cael elfen ychwanegol fel y mae Cymorth Cristnogol yn ei wneud yng ngogledd Zimbabwe. Yr hyn yr hoffwn i ei weld fuasai menter fyddai'n eu helpu allan o'u sefyllfa drist ac adfer ychydig urddas i'w bywydau drwy roi hyfforddiant iddynt i'w galluogi i sefyll ar eu traed eu hunain.

I orffen, credaf fod ymgyrch Cymorth Cristnogol yng ngogledd Zimbabwe fel dysgu unigolion i bysgota tra mae menter fel yr un yng Nghaerdydd fel darparu pysgodyn.

*Russell Evans*

# Rhestr Gwylio'r Byd 2023: Y 50 Uchaf




Llawlyfr cynhwysfawr a gynhyrchir yn flynyddol gan fudiad Open Doors sy'n cyflwyno'r 50 gwlad lle mae'n costio'n ddrutaf i ddilyn Iesu yw Rhestr Wylio'r Byd. Mae'r llawlyfr hwn yn llawn gwybodaeth ac anogaeth i'ch helpu i gysylltu gyda'r eglwys sy'n cael ei herlid ac i weddïo dros ein teulu sy'n wynebu erledigaeth. Drwy haelioni'r mudiad Open Doors, fe gyflwynir fersiwn Cymraeg eto eleni i'w ddefnyddio gan eglwysi a Christnogion yng Nghymru.

**Mae'r llawlyfr yn cynnwys:**

- Gwybodaeth fanwl a phwyntiau gweddi penodol ar gyfer pob un o'r 50 gwlad
- Straeon a thystiolaethau ysbrydoledig gan Gristnogion sy'n cael eu herlid
- Gwybodaeth am dueddiadau byd-eang yn y ffordd mae Cristnogion yn cael eu herlid
- Map ysgrifenedig ac adnodau o'r Beibl i'ch helpu i weddïo
- Map o'r 50 gwlad uchaf yn Rhestr Gwylio'r Byd

Dyma ddolen ar ei gyfer: Rhestr Gwylio'r Byd 2023: Y 50 Uchaf – Open Doors UK & Ireland

Archebwch gymaint ag sydd ei angen arnoch, yn rhad ac am ddim (hyd at 50 copi ar gyfer eglwys neu gapel). Mae'n addas ar gyfer unigolion, eglwysi, capeli, cyfarfodydd gweddi ac ati. Mae'n cymryd munud neu ddau ar y mwyaf i'w harchebu ar-lein, ond os oes gan unrhyw un anawsterau, ebostiwch fi ar jims@opendoorsuk.org a gallaf drefnu i gopi neu gopïau gael ei anfon / eu hanfon atoch.

*Jim Stewart*



## Diwrnod Agored Cartref Glyn Nest

dydd Mercher, 30 Awst, am 2 o'r gloch
yng Nghapel y Graig, Castellnewydd Emlyn

Dechreuir gydag oedfa fer o ddiolchgarwch
am dros 50 mlynedd o wasanaeth

Agorir y digwyddiad gan Mr Trefor Davies, Porthcawl
Pris mynediad: £2

Dyma'r diwrnod agored cyntaf oddi ar 2019, felly …

**"Dewch yn llu a rhowch yn llon"**

https://www.glynnest.co.uk/cy/

Bydd Capel Seion yn

**dathlu 200 mlwyddiant yr Achos**

**dydd Sul, 15 Hydref, am 2 o'r gloch.**

Bydd yr oedfa
yng ngofal aelodau'r capel ac yn
dathlu ac yn diolch am gyfraniad
aelodau ddoe, heddiw ac yfory

Bydd te parti i ddilyn!

*Gwahoddir chi, o bell ac agos,*
*i ymuno yn y dathliad.*

A byddem wrth ein bodd pe baech yn medru rhannu rhai o'ch atgofion chi am Gapel Seion a'ch ymwneud â'r capel a'r ardal. Anfonwch hwy ar bapur neu ar e-bost ynghyd â lluniau at: Ina@tudnowilliams.com neu Brynawel, Pant-y-crug, Aberystwyth, SY23 4EF. Dewch yn llu.

**Dwyn i gof Dathlu Creu atgofion newydd**

# CREDO

Oes gan eich eglwys neu eich enwad gredo y gwyddoch amdani? Mae ar eglwysi heddiw reidrwydd statudol i sicrhau bod ganddynt bolisïau ynglŷn â phlant ac oedolion bregus, ynghyd â gwybodaeth bersonol. Ond beth am gredo greiddiol yr eglwys?

Yn wyneb yr angen i sicrhau trefniadau cyfreithiol gellid colli golwg ar gredoau hanfodol y ffydd Gristnogol. Magwyd sawl plentyn slawer dydd ar gatecism y *Rhodd Mam*. A gwyddom mai cyffes sylfaenol y Cristion yw mai Iesu yw'r Arglwydd (1 Corinthiaid 12:3).

Gyda thwf diwinyddiaeth ryddfrydol yn ystod yr ugeinfed ganrif, gwelwyd llai o sylw i le cyffesion ffydd o fewn eglwysi Cymru. Canlyniad anffodus hynny yw fod llai o aelodau eglwysig yn gyfarwydd â hanfodion y ffydd. Felly, mae angen aildrwytho pobl yn yr hanfodion hynny fel eu bod yn deall ac yn gwerthfawrogi cyfoeth eu ffydd.

Dysgodd Paul athrawiaeth Gristnogol i eglwysi'r Testament Newydd mewn ymateb i gau ddysgeidiaeth a gofalon bugeiliol. Datblygodd diwinyddiaeth gyfundrefnol yn ystod cyfnod yr Eglwys Fore mewn ymateb i heresïau oedd yn tanseilio'r ffydd Gristnogol. Ymhelaethwyd wedyn ar athrawiaethau'r ffydd gan ddiwinyddion yr oesoedd.

Yn wyneb bygythiad heresi Ariaeth (a honnai mai person creedig yw Iesu Grist) i undod yr Ymerodraeth Rufeinig, galwodd yr Ymerawdwr Cystennin Gyngor Nicea yn 325 a luniodd Gredo Nicea oedd yn datgan bod Iesu Grist yn unig-anedig (*begotten*), nid yn greedig. Ffurfiwyd Credo'r Apostolion rhwng y 4edd a'r 8fed ganrif.

Yna, yn wyneb twf Arminiaeth, a bwysleisiai ran dyn mewn iachawdwriaeth yn hytrach na rhan Duw, cynullwyd Synod Dort (1618–19) a luniodd athrawiaeth TULIP (*t*otal depravity; *u*nconditional election; *l*imited atonement; *i*rresistible grace; *p*erseverance of the saints).

Ac yn ystod yr 17eg ganrif lluniodd eglwysi Ymneilltuol (Anghydffurfiol) gyffesion ffydd i roi mynegiant cryno o'u credoau:


Cyffes Ffydd San Steffan (1646): Cyffes Bresbyteraidd

Datganiad Savoy (1658): Cyffes Gynulleidfaol

Cyffes Ffydd Fedyddiedig (1689): Cyffes Fedyddiedig

Eleni, mae Eglwys Bresbyteraidd Cymru yn cofio am lunio'i chyffes ffydd gyntaf yn 1823 yn Aberystwyth.


Tybed faint o aelodau a hyd yn oed arweinwyr eglwysig sy'n gwybod am y rhain, heb sôn am eu harddel? Wrth gwrs, nid yw cyffes ffydd yn rhoi bywyd ysbrydol i'r enaid marw ond mae'n gosod amlinelliad cynnil o ffydd y gyffes. Nid *straightjacket* gormesol yw cyffes ond *scaffold* cynorthwyol!


CYFFES FFYDD,
WEDI EI GOSOD ALLAN GAN
HENURIAID A BRODYR
Amryw Gynnulleidfaoedd o Grist'nogion, wedi eu bedyddio ar Broffes o'u Ffydd,
Yn LLUNDAIN A'R WLAD,
MEWN
CYMMANFA GYHOEDDUS,
YN Y FLWYDDYN 1689.

A GYFIEITHWYD O'R NEWYDD
GAN JOSHUA THOMAS.

A'r galon y credir i gyfiawnder, ac â'r genau y cyffesir i iechydwriaeth, Rhuf. x. 10.
Chwiliwch yr ysgrythurau, Ioan v. 39.

CAERFYRDDI
ARGRAFFWYD GAN IOA
YN HEOL-Y-BREN
M.DCC.XCI.





Llun: en.wikipedia.org

Os ydym wedi profi Duw yn wir i'w Air, yna derbyniwn yr hyn a ddywed y Beibl. Felly, credwn fod Duw yn drindod sanctaidd o bersonau dwyfol mewn undod perffaith. Credwn iddo greu dyn i fyw mewn perthynas gariadlawn ag Ef. Credwn i ddyn bechu yn erbyn Duw gan golli'r berthynas honno ac wynebu cosb Duw. Credwn i Iesu Grist, ar sail cariad Duw at ddyn, wynebu'r gosb yn Ei farwolaeth ar y groes. Credwn, wrth edifarhau am ein pechod a chredu yng Nghrist, y cawn ein hadfer i berthynas gariadlawn â Duw. Mewn diolchgarwch iddo Ef am hyn, rydym yn dymuno addoli Duw drwy gymorth yr Ysbryd Glân. Credwn y daw Iesu Grist yn ôl i'r ddaear i farnu'r byw a'r meirw gan gondemnio'r di-gred i uffern ond cludo'r credinwyr i'r nefoedd am byth.

*Peter Davies*

ADNABOD

## Cymeriadau'r Hen Destament

## ABRAHAM

Cyfres o astudiaethau gan y Parch. Meirion Morris ar gyfer grŵp neu unigolion; gellir eu defnyddio ochr yn ochr â'r gyfrol *Dehongli Bywyd Abraham* gan Gareth Lloyd Jones.

### 38 Trefnu priodas (Rhan 2)

**Darllen: Genesis 24:10–67**

**(Gweler hefyd *Dehongli Bywyd Abraham*, gan Gareth Lloyd Jones, t. 165)**

Gan fod yr adran hon yn weddol faith, rwyf am ganolbwyntio y tro hwn ar rai egwyddorion sy'n codi o'r hanes. Wrth wneud hynny, rwyf yn cadw mewn cof, er nad yw'r Beibl yn rhyw fath o gyfeirlyfr – yn lle i chi fynd i ddarganfod beth sydd i'w wneud ym mhob sefyllfa wahanol, eto mae'n cynnwys egwyddorion sy'n gymorth i'r rhai sy'n caru Iesu i fyw mewn ffordd sy'n plesio Duw. Yn 1 Corinthiaid 10:11 mae Paul yn atgoffa'r Eglwys, 'digwyddodd y pethau hyn iddynt hwy fel esiamplau, ac fe'u hysgrifennwyd fel rhybudd i ni, rhai y daeth terfyn yr oesoedd arnom'. Mae hyn yn cyd-fynd â'r geiriau yn Rhufeiniaid 15:4, 'Ac fe ysgrifennwyd yr Ysgrythurau gynt er mwyn ein dysgu ni, er mwyn i ni, trwy ddyfalbarhad a thrwy eu hanogaeth hwy, ddal ein gafael yn ein gobaith.' Gyda hyn mewn golwg, rwyf am edrych ar ffyddlondeb y gwas, cymeriad Rebeca a chysur Isaac.

Ceir rhai esbonwyr yn awgrymu mai'r 'gwas' yma yw Eleasar o Ddamascus (Genesis 15:2). Os felly, mae ei ffyddlondeb dros y blynyddoedd, fel yn y mater penodol hwn, yn rhywbeth inni ryfeddu ato. Pe bai Abraham a Sarah heb gael mab, hwn fyddai wedi etifeddu stad Abraham, ond, yn hytrach na dyn sy'n chwerw am yr hyn a fyddai wedi bod yn bosibl, cawn ddyn sydd mor ffyddlon fel ei fod wedi derbyn y cyfrifoldeb o ofalu am holl eiddo ei feistr (24:2). Tybed ydych chi neu rywun rydych yn ei adnabod wedi'i feddiannu gan chwerwder sy'n peri nad ydynt yn rhoi'r gorau i'w gwaith, neu i berthynas? Nid felly'r gwas hwn; yn wir, mae yna ddoethineb a duwioldeb yn gyforiog yn ei ymateb. Mae'r doethineb yn dod i'r golwg yn ei benderfyniad i sicrhau nad pryd a gwedd ond cymeriad sy'n allweddol yn yr ymchwil yma am wraig, a'i dduwioldeb yn llifo drwy ei ddefosiwn a'i weddïau parhaus yn ystod y gwaith.

Sylwch o ran yr elfen gyntaf ar adnod 16, 'Yr oedd y ferch yn hardd odiaeth, yn wyryf, heb orwedd gyda gŵr'. Doedd yr un oedd wedi gweddïo yn adnod 12, 'O ARGLWYDD, Duw fy meistr Abraham, rho lwyddiant i mi heddiw' ac wedi bwriadu profi cymhellion a chymeriad yn adnod 14, 'Y ferch y dywedaf wrthi, "Gostwng dy stên, er mwyn i mi gael yfed", a hithau'n ateb, "Yf, ac mi rof ddiod i'th gamelod hefyd"', ddim am gyfaddawdu ar yr hyn a welai fel nodweddion angenrheidiol cymar priodol.

Wrth i'r hanes fynd yn ei flaen, cawn yr un defosiwn yn adnodau 26–7, 48 a 52. Sylwch hefyd ar yr adlais o Eseia 65:24, 'Byddaf yn eu hateb cyn iddynt alw, ac yn eu gwrando wrth iddynt lefaru'. 'Cyn iddo orffen siarad, dyma Rebeca, a anwyd i Bethuel fab Milca, gwraig Nachor, brawd Abraham, yn dod allan â'i stên ar ei hysgwydd' (adn. 15).

Medrwn fod yn hyderus fod y Duw sy'n adnabod ein hanghenion a'n deisyfiadau cyn inni eu mynegi yn Dduw sydd am ein hateb yn ôl ei ewyllys: 'A hwn yw'r hyder sydd gennym ger ei fron ef: y bydd ef yn gwrando arnom os gofynnwn am rywbeth yn unol â'i ewyllys ef. Ac os ydym yn gwybod ei fod yn gwrando arnom, beth bynnag y byddwn yn gofyn amdano, yr ydym yn gwybod bod y pethau yr ydym wedi gofyn iddo amdanynt yn eiddo inni' (1 Ioan 5:14–15).

Os oedd y gwas yn awyddus i ddirnad cymeriad Rebeca, mae'r ateb yn dod mewn ffordd eithriadol. Un peth yw mynd i'r ffynnon i nôl dŵr iddo ef a'i gyd-deithwyr, peth arall yw mynd yn ôl a blaen droeon i ateb gofyn y camelod! Yn ôl y sôn, mae'r rhain yn medru yfed rhwng 140 a 250 galwyn yr un! Yn adnod 17, gofyn am ddiod yn bersonol mae'r gwas, ond yn adnod 19 fe glywn, 'Pan orffennodd roi diod iddo, dywedodd hi, "Codaf ddŵr i'th gamelod hefyd, nes iddynt gael digon."' Mae'n gwneud hyn i ddyn dieithr, dyn o wlad ddieithr. Er bod y gwas wedi gweddïo y byddai'n rhoi dŵr, mae hon yn rhoi – 'nes iddynt gael digon'.

Wedi deall pwy oedd hwn a beth oedd ei dasg, sylwch ar barodrwydd Rebeca i fynd, 'A galwasant ar Rebeca, a dweud wrthi, "A ei di gyda'r gŵr hwn?" Atebodd hithau, "Af."' (adn. 58) Roedd Laban, brawd Rebeca, yn ymwybodol fod yr Arglwydd yn y gwaith hwn ('Oddi wrth yr ARGLWYDD y daeth hyn; ni allwn ni ddweud dim wrthyt, na drwg na da' (adn. 50), ac mae'n amlwg fod Rebeca hefyd yn dirnad yr un modd. Pan mae'n cyrraedd Canaan ac yn gweld Isaac, 'Cymerodd hithau orchudd a'i wisgo' (adn. 65). Wrth wisgo'r gorchudd, mae'n gwneud yr hyn yr oedd priodasferch yn ei wneud wrth ddod at ei gŵr. O ddarllen ymlaen yn Genesis rydym yn gwybod fod Rebeca yn wraig oedd yn gwybod ei meddwl. Ond yma, gyda'r pwyslais ar ei chymeriad duwiol, mae'r Beibl yn dangos eto nad oes gwrthgyferbyniad rhwng y naill elfen a'r llall ynddi.

Mae'r adnod olaf yn y bennod yn rhoi darlun inni o'r cysur a'r cariad y mae Isaac yn ei adnabod yn ei briodas â Rebeca: 'Yna daeth Isaac â Rebeca i mewn i babell ei fam Sara, a'i chymryd yn wraig iddo. Carodd Isaac Rebeca, ac felly cafodd gysur ar ôl marw ei fam' (adn. 67). O glywed am ddaioni Duw yn agor y ffordd yma yn adnod 66, mae yna barodrwydd i dderbyn ateb Duw, i weithio ar garu, ac i elwa o gysur y berthynas newydd yma.

1. Sut fyddwch chi'n delio â chwerwder? Beth arall all atal ein parodrwydd i roi o'n gorau i'r Arglwydd yn ein bywyd a'n gwaith?
2. 'Yr hyn sydd yn y golwg a wêl meidrolyn, ond y mae'r ARGLWYDD yn gweld beth sydd yn y galon.' (1 Samuel 16:7) Beth sy'n creu ac yn cynnal cymeriad y Cristion?
3. 'Carodd Isaac Rebeca' – mewn oes lle mae cariad yn aml yn ddibynnol ar sut dwi'n teimlo neu ddim ond yn wir oherwydd sut dwi'n teimlo, beth yw goblygiadau deall cariad fel rhywbeth rydym yn ei wneud?

BBC radio cymru

*Caniadaeth y Cysegr*
**Sul, 27 Awst, am 7:30yb a 16:30yp**
Betsan Powys yn cyflwyno detholiad o emynau'n cael eu canu gan Gôrdydd

**Sul, 27 Awst, am 12yp**
Blas ar oedfa eglwys wyllt gyda Sara Roberts, Bethesda

# ‘Pererindod’ i eglwys arbennig

A ellir pererindota mewn ceir? Pam lai? Felly ar bnawn Sul braf, ynghanol tywydd glawog Gorffennaf, aeth pymtheg ohonom o Gapel Cefnddwysarn i ymweld ag un o eglwysi mwyaf nodedig Cymru, sef Eglwys Sant Dyfnog yn Llanrhaeadr-yng-Nghinmeirch, Dyffryn Clwyd. Ynddi mae ffenest Jesse, un o ffenestri lliw hynotaf gwledydd Prydain, yn dyddio’n ôl i 1533 ac yn darlunio‘r adnod o Eseia: ‘Yna y daw allan wialen o gyff Jesse; a Blaguryn a dyf o’i wraidd ef.’ Cuddiwyd gwydr y ffenest yn ystod y Rhyfel Cartref rhag i Cromwell a’i filwyr ei malurio. Yn ei gwaelod y mae Jesse ei hun, y brenin Dafydd uwch ei ben, ac yna yn y pen ucha y mae’r Forwyn Fair yn dal y Baban Iesu.

Nid y ffenest a’i lliwiau llachar yw unig hynodrwydd yr eglwys a’r fynwent. Wrth y llidiart y mae cofgolofn Edward Jones, Maes-y-plwm, awdur yr emynau ‘Cyfamod hedd, cyfamod cadarn Duw’; ‘Mae’n llond y nefoedd, llond y byd’; a ‘Pob seraff, pob sant’. Ac er na fynnem ganmol ein hunain, gallai’r rhan fwyaf o’r criw adrodd yr emyn ‘Cyfamod hedd’ o gael dechrau’r llinell gynta! Yn y fynwent hefyd y mae bedd Ann Parry, un o arloeswyr y Methodistiaid yn yr ardal, un y cyfansoddwyd marwnad iddi gan Thomas Jones, Dinbych, ac un a ddymunodd na byddai ei chorff yn pydru yn y ddaear. Dywed traddodiad i archwiliadau ar ei chorff yn 1830 ac 1836 ddangos iddi gael ei dymuniad!



Pererindotwyr Cefnddwysarn



Ffenest Jesse yn Eglwys Sant Dyfnog, Llanrhaeadr-yng-Nghinmeirch

Aeth y rhai mwyaf heini ohonom hefyd i weld ffynnon Dyfnog, ac yna cafwyd te yn y Lodge. Roedd hon yn wledd ardderchog, ac ni theimlem unrhyw gywilydd gan fod i wledda le anrhydeddus yn y Beibl. Ac os na chafodd y mab hynaf fyn i fod yn llawen gyda’i gyfeillion, cawsom ni arlwy ardderchog i fwynhau cymdeithas ddedwydd ein gilydd, i ddod â diwrnod arbennig i’w derfyn – diwrnod a drefnwyd gan ein prif drefnydd pererindodau, Heulwen Rowlands.

*Elfyn Pritchard*

## Bore arddangos adnoddau a thrafod gwaith plant ac ieuenctid

**Bore Sadwrn, 2 Medi**
**cynhelir arddangosfa o adnoddau**
**yng Nghapel y Crwys, Caerdydd,**
**rhwng 10 a 12 o’r gloch**

Bydd Aled Davies o’r Cyngor Ysgolion Sul yno i drafod a chynghori ar faterion gwaith plant, a hefyd o ran addoliad ac adnoddau i gynnal oedfa ar y Sul. Bydd dewis helaeth o adnoddau ar gael i’w prynu hefyd. Dewch ynghyd i drafod posibiliadau ac i rannu eich profiadau o ran ysgolion Sul. Croeso cynnes i bawb i daro mewn unrhyw adeg rhwng 10 a 12 o’r gloch.

## *Gwasanaethu’r Duw Byw* gan Dafydd Andrew Jones

Fe’ch gwahoddir yn gynnes
i Gapel y Crwys, Caerdydd,
ar gyfer cyfarfod lansio

***Gwasanaethu’r Duw Byw***
**gan Dafydd Andrew Jones**

llawlyfr sy’n cynnig arweiniad ar stiwardiaeth Gristnogol

bore Sadwrn, 2 Medi, am 11 o’r gloch

Cyhoeddir y gyfrol gan Gyhoeddiadau’r Gair; pris £9.99

Croeso cynnes i bawb

# Dyma gyfarfod hyfryd iawn

## *Cofio*

### Emyn 232 'Sefyll o dan adain cariad Duw'

Nid mewn geiriau neu athrawiaethau yn unig y mynegir neu y tystir i wirionedd y newyddion da yn Iesu Grist. Nid 'crefydd' sy'n cadarnhau'r hyn y credwn ynddo yn gymdeithasol neu'n wleidyddol ydyw ychwaith. Ffydd, ymateb personol ydyw i argyhoeddiad am y modd y gweithredodd yr Arglwydd tuag atom yn ei Fab, Iesu Grist. Argyhoeddiad ydyw am dosturi Duw ac am ein hangen ni am y tosturi hwnnw. Ymateb ydyw i waith mewnol ei Ysbryd. Ymateb dirgel sy'n ein galw i arddangos yn gyhoeddus, trwy weithredoedd ymarferol, ryfeddod y bywyd newydd yn Iesu Grist. Ar sail ei dosturiaethau tuag atom ymatebwn ninnau.

### Darllen Rhufeiniaid 12:1-9 – Y Bywyd Newydd yng Nghrist

### Gweddi

Arglwydd, ar sail dy drugaredd, dy dosturiaethau a'th amynedd di-ben-draw tuag atom, cynhyrfa ynom ymateb rhesymol y rhai a brynwyd trwy gariad Iesu Grist. Oherwydd aberth dy Fab trosom i'n gwaredu o farwolaeth, dysg ni i rodio mewn newydd-deb calon, fel ebyrth byw a neilltuwyd i ti. Dysg ni o'r newydd i blymio dyfnder dy gariad tuag atom yn Iesu Grist ac i gael ein rhyfeddu pan na fedrwn ganfod gwaelod tragwyddol dy dosturi. Dysg ni drwy dy Ysbryd, mewn ffydd a thrwy weithredoedd ymarferol i dystio i'th ras yn feunyddiol. Amen.

### Emyn 710 'Arglwydd Iesu, dysg im gerdded'

### Darllen Eseia 51:1–6

Yn ystod yr wythnosau diwethaf buom yn ystyried yr addewid a roed gan yr Arglwydd i Abraham i'w fendithio, ei amlhau ac i fendithio holl dylwythau'r ddaear ynddo ef (Genesis 12:1–4).

Rydym yn credu, ar sail y Testament Newydd, mai trwy Iesu Grist y cafodd, ac y caiff, yr holl addewidion hyn, ynghyd â'r holl fwriadau dwyfol eraill, eu gwireddu'n derfynol.

Ni fu pob pennod yn hanes *ei bobl* yn stori o ffyddlondeb i'r addewid. Yn wir, yn hanes pobl yr Arglwydd a'u hanffyddlondeb iddo ceir penodau tywyll iawn lle nad oes unrhyw olwg o gynhaliaeth, o lwyddiant, nac o bresenoldeb amlwg yr Arglwydd. Ond ni chefnodd *yr Arglwydd* ar ei air na'i gyfamod o ras!

Yn wir, nid ataliwyd ei allu, ac ni chefnodd ei fwriad, ei ymrwymiad, ei ffyddlondeb i'w gyfamod er gwaethaf yr amgylchiadau anffafriol ymddangosiadol.

### Tywyllwch a chysur

Wrth i Eseia gyfarch ei wrandawyr, pobl mae'n bur debyg oedd wedi gweld eu dinas yn cael ei chwalu ac a oedd yn profi caethglud ym Mabilon, roedd yr amgylchiadau'n ymddangos yn bur dywyll. Ni all unrhyw un ohonom osgoi cyfnodau o golli, o chwalu'r hyn sy'n annwyl i ni. Pobl oeddynt, fel ninnau, sydd angen clywed gair o gysur (adn. 3 x2 Eseia 40:1). Ond er bod eu dinas yn 'anghyfannedd', yn 'anialwch' ac yn ddiffeithwch (adn. 3), nid oedd eu hamgylchiadau allanol yn wir fesur o diriondeb yr Arglwydd. Roedd ganddo fwriad i'w bobl gael gweld drachefn 'llawenydd a gorfoledd, emyn diolch a sain cân' (adn. 3).

Pan adferid Jerwsalem, byddai ei bobl yn deall mai ef, yr arglwydd ei hun, oedd gwir awdur a chanolbwynt eu hemynau moliannus!

### Craffu

Un peth oedd clywed y geiriau gobeithiol hyn. Peth arall oedd oedi i graffu, deall, pwyso a dirnad gwir ddyfnder ac arwyddocâd ei eiriau. Felly, gwelwn fod yr adnodau'n llawn o orchmynion i dalu sylw: 'Gwrandewch' (adn. 1) ac 'edrychwch' yw gorchymyn cyntaf yr Arglwydd i ni (adn. 2 x2). A rhag ofn na ddeallasom ei air yn y lle cyntaf, meddai'r Arglwydd drachefn, 'gwrandewch arnaf ... clywch fi' (adn. 4), 'codwch eich golwg' ac 'edrychwch' (adn. 6), 'Gwrandewch' (adn. 8).

Nid o'r ddaear y mae, nag y bydd, ein gobaith yn tarddu. O galon a ffyddlondeb yr Arglwydd y tardda pob gwir gysur a gobaith.

### Neges i bwy?

Dwy waith nodir cymeriad y gwrandawyr. Caiff y rhai 'sy'n dilyn cyfiawnder' eu hadnabod fel y rhai 'sy'n ceisio'r Arglwydd' (adn. 1). Cyfeirir at ei wrandawyr fel 'fy mhobl', fel pobl sydd mewn perthynas neilltuol â'r Arglwydd ar sail ei ymyrraeth rasol. Pobl ydynt, er eu hanffyddlondeb a'u methiant i gadw ei air, sydd wedi cael 'adnabod cyfiawnder' (adn. 7) a hynny am i'w 'gyfraith' gael ei phlannu yn eu calon.

### Tair neges ...

Yn y *neges gyntaf* caiff y bobl eu hannog i gofio'u hanes eu hunain, a gwneir hynny gan ddefnyddio ieithwedd sy'n cyfeirio at Eden (adn. 3). Nid gan y diffeithwch na'r amgylchiadau difaol yr oedd y bobl yn eu hwynebu ar y pryd yr oedd y gair olaf. Trwy ymyrraeth Duw, byddai'r 'anghyfannedd', yr 'anialwch' a'r tir diffaith yn cael eu troi yn Eden baradwysaidd, yn 'ardd yr Arglwydd', yn gartref i foliant ac addoliad. Ond yn yr ail anogaeth i 'gofio'r chwarel lle'ch cloddiwyd' defnyddir iaith oedd yn eu hatgoffa o'r addewid i Abraham i'w fendithio ac i gynyddu ei dras. Dyma'r bobl a gâi ei foliannu drachefn.

Da o beth fyddai i ninnau, yn genedlaethol, yn enwadol ac yn lleol, gofio hanes gweithgarwch yr Arglwydd yn ein tir a'r modd y tywalltwyd ei ras drwy gyfres o ddeffroadau ac o ddiwygiadau arnom fel cenedl. Dyma ein stori, ein cynefin ysbrydol. Cofiwn ein tras. Ceisiwn ei fendith.

Yn y*r ail neges* caiff yr addewid ei ehangu i gynnwys yr holl fyd. I fyd oedd yn ddieithr i'w air 'daw cyfraith allan oddi wrthyf'; i'r rhai oedd mewn carchar tywyll, du, byddai ei gyfiawnder 'yn goleuo pobloedd' (adn. 4). I'r rhai oedd yn cael eu gorchfygu, 'mae fy muddugoliaeth gerllaw'; i'r clwyfedig byddai ei 'iachawdwriaeth' yn dod (adn. 5). Nid symudiad dinod, cyfyngedig ei gyrhaeddiad fyddai'r ymyrraeth hon. Byddai'r cyrion a phellteroedd byd, 'yr ynysoedd' hyd yn oed, yn dod i ymddiried yn yr Arglwydd a'i adnabod (adn. 5).

Yn y *drydedd neges* (adn. 6) cyhoeddir bod y llywodraeth a'r awdurdod yn perthyn i'r arglwydd ei hun. Diflannu fel mwg a wna'r nefoedd; treulio fel dilledyn a wna ymerodraethau; trengi a wnâi pobl. Ni ellir atal bwriadau grasol yr Arglwydd. Iddo ef y perthyn y fuddugoliaeth a'r goncwest.

### Anogaeth ymarferol

Am hynny, er mor drafferthus oedd yr amgylchiadau, mor niferus yr helbulon, mor aml y rhwystrau, eiddo'r arglwydd yw'r fuddugoliaeth a'i iachawdwriaeth drwy Iesu Grist, dros bechod, dros wrthryfel, dros angau a'r bedd (adn. 7–8). Felly, nid i ddigalondid y cawsom ein galw, nac i ofn, nac i arswyd. Ond i rannu yng nghaneuon mawl yr Arglwydd, sy'n cadw ei air i Abraham, yn ail-greu paradwys ac yn aildanio diolchgarwch a mawl.

### Emyn 740 'Arglwydd Iesu, arwain f'enaid'

*RWJ*

Cyhoeddir *Cenn@d* ar y cyd gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac Undeb Bedyddwyr Cymru.
Oni nodir yn wahanol, nid yw barn cyfranwyr *Cenn@d* yn cynrychioli barn swyddogol Eglwys Bresbyteraidd Cymru nac Undeb Bedyddwyr Cymru. Gallwch anfon eich cyfraniadau / gohebiaethau / ymholiadau at:
watcyn@cennad.cymru | huw@cennad.cymru | aled@ysgolsul.com
www.cennad.cymru CennadCymru @CennadCymru